

PAPURAU BUSNES

Rhan 1- Adran F

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 3 Hydref 2000 i'w hateb ar 17 Hydref 2000

R Yn dynodi bod yr aelod wedi datgan buddiant

W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi ei gyflwyno yn Gymraeg

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Gofyn i'r Prif Ysgrifennydd

1. Michael German (Dwyrain De Cymru); Pa asesiad sydd wedi cael ei wneud o oblygiadau cyflwyno'r Ddeddf Hawliau Dynol ar y Cynulliad a'i amrywiol adrannau. (OAQ7019)**TYNNWYD YN OL**

2. Geraint Davies (Rhondda); A wnaiff ddatganiad byr ar swyddogaeth y Cyngor Partneriaeth Busnes. (OAQ7021)

3. Helen Mary Jones (Llanelli); Sut fydd gweithredu'r Ddeddf Hawliau Dynol yn effeithio ar swyddogaethau cyffredinol y Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ7030)

4. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru); Sut y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu codi proffil diwylliannol Cymru o fewn gweddill y Deyrnas Gyfunol ac ar draws Ewrop gyfan. (OAQ7022) [w]

5. Phil Williams (Dwyrain De Cymru); Faint o gynnydd sydd wedi cael ei wneud mewn perthynas â gwireddu'r ymrwymadau a wnaed yn gwellcymru.com. (OAQ7027)

6. Ann Jones (Dyffryn Clwyd); A wnaiff ddatganiad ar bwysigrwydd y Pwyllgorau Rhanbarth i waith y Cynulliad. (OAQ7035)

7. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr); A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar fewnbwn y Cynulliad Cenedlaethol i broses ddeddfwriaethol San Steffan. (OAQ7023) [w]

- 8. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** Pa fath o ymateb y mae wedi'i gael gan ysgolion a mudiadau ieuenctid i'r fenter Llais Ifanc. (OAQ7032)
- 9. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A ydyw wedi cael unrhyw drafodaethau pellach yn ystod y ddau fis diwethaf â Len Cook, Ystadegydd Cenedlaethol Lloegr a Chymru, ynghylch cynnwys 'blwch ticio Cymreig' ar ffurflen cyfrifiad 2001. (OAQ7031)
- 10. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar ei ymrwymiad at ariannu cynlluniau a fydd yn hybu proffil rhyngwladol Cymru. (OAQ7033) [w]
- 11. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff ddatganiad byr ar y cynnydd a wnaed gan y Cynulliad tuag at wireddu'r penderfyniadau a gaiff eu pasio yn y Cyfarfodydd Llawn. (OAQ7029)**TYNNWYD YN OL**
- 12. Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Pa drafodaethau y mae wedi eu cael yn ddiweddar ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch datblygu polisiau sy'n ymwneud â materion nad ydynt wedi cael eu datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ7034)**TYNNWYD YN OL**
- 13. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pa fath o ymgynghori y mae wedi ei wneud â'r cyhoedd i drafod y targedau sy'n cael eu hamlinellu yn 'Gwellcymru.com'. (OAQ7025)
TYNNWYD YN OL
- 14. Brian Hancock (Islwyn);** Pa gamau sydd wedi cael eu cymryd gan y Prif Ysgrifennydd i sicrhau bod Mawrth 1^{af} yn wyliau cyhoeddus yng Nghymru, yn dilyn y penderfyniad a basiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ7026)**TYNNWYD YN OL**
- 15. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar ymateb Llywodraeth Cymru i Gyfrifiad 2001, cyfrifiad a fethodd a chydabod bodolaeth pobl Cymru. (OAQ7036) [w]
TYNNWYD YN OL
- 16. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** Pa asesiad y mae wedi ei wneud o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol rhwng y Cynulliad Cenedlaethol ac adrannau'r llywodraeth yn Llundain. (OAQ7028)**TYNNWYD YN OL**
- 17. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael â'r Prif Weinidog ynghylch gwella'r cysylltiadau cyfathrebu rhwng Adrannau Llywodraeth y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. (OAQ7020)
- 18. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cynnal gyda Chyngor yr Henoed ynghylch tlodi ymhlith pensiynewyr yng Nghymru. (OAQ7038)